



Dear Sir/Madam

Morriston Post Office®
1 Woodfield Street, Morriston, Swansea, SA6 8AQ

Local Public Consultation Decision

I'm writing to confirm that following a period of local public consultation and review the decision has been made to proceed with the proposal to transfer the running of this branch to Nick Evans where it will remain at its existing location.

This change is being made as part of the continuing modernisation of our network, to achieve commercial sustainability and will help us to provide services that will meet customer needs and safeguard future service provision in Morriston, now and for the long-term.

Public consultation feedback

During the public consultation period we received 8 individual representations from customers and local representatives. We also held a customer forum to talk about our plans and answer questions.

Some of the feedback commented on the future of the current staff, the proposed change in the way the branch is run and how the building would be used. On this latter point, our new retail partner's primary focus is creating a modern and efficient Post Office. His plans for the remaining parts of the building are still in development and will not be implemented until after the Post Office refurbishment is complete and the new branch established. Other feedback welcomed the longer opening hours and the fact that the branch would be remaining at its current location. I would like to thank everyone who took the time to let us have their comments and provide information. All the feedback we received helped us to better understand the views of customers and their representatives and this was taken into account along with all other relevant factors, when making our decision.

The new Morriston Post Office

Our new retail partner plans a major refurbishment of the current premises, providing a brand new, modern Post Office branch and a retail offer of stationery, greeting cards and gifts. Customer access both into and within the store would remain the same and will meet Post Office Ltd.'s own accessibility standards and all applicable legislation. There will be double manual doors at the entrance that are kept open during opening times, leading to an internal automatic door.

Externally the store front will include Post Office signage, as well as an opening hours board. There will be directional signage from the entrance door through to the new Post Office area. Both the entrance area and shopping aisles will be kept free of obstructions and there will be sufficient space for Post Office customers to move around within the store, including wheelchair users, so they can reach the Post Office area without difficulty.

The Post Office counter will be built to Post Office specifications, including low level counters, PIN pads and hearing loops. There will be space for people to wait for service and customer seating will also be provided. The new branch will have one traditional floor to ceiling screened serving positions, two open plan serving positions and a Post Office serving point at the retail counter. The number of serving positions is based on current and future predicted business levels. Following the transfer, the Post Office will also be open for longer including Saturday afternoons, providing customers with more flexibility around their visits.

I'm satisfied that customer needs will continue to be met however we will continue to monitor customer usage at the branch following the transfer and will work with our new partner to make sure service standards are maintained.

Access to Post Office services and products

The same wide range of Post Office services will continue to be available. Staff, who will work exclusively in the Post Office, will be trained to provide information on financial products, including savings and insurances. Product information will also be available for customers to take away with them and our website and specialist customer helplines also provide information on what's available and how to make a purchase.

Further details of the new branch, including opening hours, are provided in the enclosed information sheet.

Customer service training and existing staff

Post Office runs a robust recruitment process and our new retail partner has satisfied us that they are an appropriate franchise partner to operate the service at Morriston and are committed to delivering excellent customer service.

Any person employed to work in Morriston Post Office will be trained to the highest Post Office standards and just as with branches we run ourselves, the branch staff will receive on-going training on products and services, as well as general operational and service related matters. Post Office Area Managers will work with our new partner and the branch team to provide support, in the same way they already do in existing Post Office branches operated by us or other retail partners.

In respect of the team working at the existing branch, we have a strong track record of supporting our people through change. We will do all that we can to find a solution that works for each individual within the options available.

Conclusion

We believe that franchising this branch will allow us to better secure Post Office services in this community for the longer term and help strengthen and secure the Post Office network as a whole. We already run the vast majority of our network on a franchise or agency basis and delivering services through these branches is proven to be successful.

After careful consideration of the feedback received, I am confident that the new branch will continue to meet customer needs and deliver an excellent service, whilst helping to provide future sustainability for the branch and maintaining a Post Office presence in Morriston.

I'm pleased to confirm the refurbishment dates have been agreed and your fresh new branch will open at 09:00 on Thursday 25 January 2018. To enable the work to be carried out, Morriston Post Office will temporarily close from 17:30 on Wednesday 3 January 2018. I'm sorry for any inconvenience that may be caused during this period and have provided details of alternative branches at the end of this letter.

You can also find a copy of this letter on our website at postofficeviews.co.uk. When entering the website you will be asked to enter the code for this branch: **00464299**.

Yours faithfully



Roger Gale
Sales & Trade Marketing Director
Post Office Limited

How to contact us:

-  postofficeviews.co.uk
 -  comments@postoffice.co.uk
 -  Customer Helpline: 03452 66 01 15
Textphone: 03457 22 33 55
 -  FREEPOST Your Comments
- Please note this is the full address to use and no further address details are**

We've published our final plan on-line, to see it, scan here.

If you don't have a QR code scanner on your phone, you can find one in your app store.



This communication process has been agreed with the independent statutory consumer watchdog, which in Great Britain is Citizens Advice and Citizens Advice Scotland, and in Northern Ireland, the Consumer Council, and is being carried out in line with our Code of Practice for changes to the Post Office network, which we have agreed with them. If you'd like copies of the Code they are available in branch, by contacting us or on our website – postofficeviews.co.uk. If you think that the process has not been properly followed and wish to make a complaint, then please write to us or email us via the contact details included in our posters and letters and let us know why. We'll examine your complaint and respond to you as soon as we can. We will provide you with the relevant contact points for the consumer watchdog, so if you are still not satisfied when you have received our response, you can ask them for their assistance.

To get this information in larger print, audio or braille, please contact the customer helpline on 03452 66 01 15 or textphone 03457 22 33 55.

Morrison Post Office information sheet															
Opening hours	<table> <tr><td>Mon</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Tue</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Wed</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Thu</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Fri</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Sat</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Sun</td><td>Closed</td></tr> </table>	Mon	09:00 – 18:00	Tue	09:00 – 18:00	Wed	09:00 – 18:00	Thu	09:00 – 18:00	Fri	09:00 – 18:00	Sat	09:00 – 18:00	Sun	Closed
Mon	09:00 – 18:00														
Tue	09:00 – 18:00														
Wed	09:00 – 18:00														
Thu	09:00 – 18:00														
Fri	09:00 – 18:00														
Sat	09:00 – 18:00														
Sun	Closed														
Opening times of Post Office service at retail counter	<table> <tr><td>Mon - Sat</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Sun</td><td>Closed</td></tr> </table>	Mon - Sat	09:00 – 18:00	Sun	Closed										
Mon - Sat	09:00 – 18:00														
Sun	Closed														
Products & Services	The same wide range of Post Office services will continue to be available.														
Serving positions	There will be four serving positions in total, made up of one screened, two open plan and a Post Office serving point at the retail counter. The total number of serving positions has been based on current and future predicted business levels.														
Access & facilities	Access into the branch would remain the same, with double manual doors at the entrance that are kept open during opening times, leading to an internal automatic door. A low level serving counter, low level writing desk and hearing loop will continue to be available.														
Retail	Stationery, greeting cards and gifts														
Dates of temporary closure for refurbishment	The existing branch will close for refurbishment from 17.30 on Wednesday 3 January 2018, and will re-open at 09:00 on Thursday 25 January 2018.														

Alternative access to Post Office® services:

Cwmrhydyceirw Post Office

178 Chemical Road
Morrison
Swansea
SA6 8JQ



Opening times

Mon	09:00 – 17:30
Tue	09:00 – 17:30
Wed	09:00 – 17:30
Thu	09:00 – 17:30
Fri	09:00 – 17:30
Sat	09:00 – 17:30
Sun	Closed



Services

The same range of services will continue to be available, with the exclusion of the cash machine and Passport Check & Send.



Access

Access into the premises is via an automatic door, with a slight incline at the entrance.



Transport/Parking

There is parking at the rear of the branch. There are bus services to this branch from Morrison Post Office. Information on routes and timetables can be accessed at www.firstgroup.com/south-west-wales



Route

This Post Office service is located approximately 0.7 miles away, along varied terrain.

Rheidol Avenue Post Office

92 Rheidol Avenue
Clase
Morrison
Swansea
SA6 7JS



Opening times

Mon	09:00 – 17:30
Tue	09:00 – 17:30
Wed	09:00 – 17:30
Thu	09:00 – 17:30
Fri	09:00 – 17:30
Sat	09:00 – 17:30
Sun	Closed



Services

The same range of services will continue to be available, with the exclusion of Passport Check & Send.



Access

This branch has a wide door and a threshold strip at the entrance.



Transport/Parking

There is off street parking directly outside the branch. There are bus services to this branch from Morrison Post Office. Information on routes and timetables can be accessed at www.firstgroup.com/south-west-wales



Route

This Post Office service is located approximately 1.2 miles away, along varied terrain.

**The City of Swansea
Post Office**

WHSmith
37 The Quadrant Shopping
Centre
Swansea
SA1 3QW



Opening times

Mon	09:00 – 17:30
Tue	09:00 – 17:30
Wed	09:00 – 17:30
Thu	09:00 – 17:30
Fri	09:00 – 17:30
Sat	09:00 – 17:30
Sun	10:30 – 14:30



Services

The same range of services will continue to be available, with the exclusion of the cash machine.



Access

There is level access with a wide door at the entrance.



Transport/Parking

There are several public car parks within the area and bus services to this branch from Morriston Post Office. Information on routes and timetables can be accessed at www.firstgroup.com/south-west-wales



Route

This Post Office service is located approximately 4.1 miles away, along varied terrain.



Annwyl Syr/Fadam

Swyddfa Bost® Treforys
1 Stryd Woodfield, Treforys, Abertawe, SA6 8AQ

Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau, yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, y gwnaed penderfyniad i fwrw ymlaen â'r bwriad i drosglwyddo rhedeg y gangen hon i Nick Evans yn y lleoliad presennol.

Mae'r newid yn cael ei wneud fel rhan o'r trefniadau parhaus i foderneiddio ein rhwydwaith er mwyn cael cynladwyedd masnachol. Bydd hefyd yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau a fydd yn ateb gofynion cwsmeriaid ac yn diogelu gwasanaeth yn Nhreforys, yn awr ac yn yr hirdymor.

Ymateb o'r ymgynghoriad cyhoeddus

Yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol, cawsom 8 o ymatebion unigol gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol. Hefyd, cynhaliwyd fforwm i gwsmeriaid er mwyn siarad am ein cynlluniau ac ateb cwestiynau.

Roedd peth o'r adborth ynghylch dyfodol y staff presennol, y bwriad i newid y ffordd y mae'r gangen yn cael ei rhedeg a sut gâi'r adeilad ei ddefnyddio. Ynglŷn â'r pwynt olaf, mae'n flaenoriaeth gan ein partner cyfanwerth i greu Swyddfa Bost fodern ac effeithlon. Mae'n dal i lunio cynlluniau ar gyfer gweddill yr adeilad. Felly, ni chânt eu rhoi ar waith tan ar ôl i'r Swyddfa Bost gael ei hadnewyddu ac i'r gangen newydd gael ei sefydlu. Roedd adborth arall yn croesawu'r oriau agor estynedig a'r ffaith y byddai'r gangen yn dal i fod yn y lleoliad presennol. Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi sylwadau a gwybodaeth inni. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr yn well a chafodd ei ystyried, ynghyd â'r holl ffactorau eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad.

Swyddfa Bost® newydd Treforys

Mae ein partner manwerth newydd yn bwriadu adnewyddu'r adeilad presennol yn helaeth er mwyn darparu cangen Swyddfa'r Post fodern newydd sbon a siop sy'n cynnig deunydd cyfathrebu, cardiau cyfarch ac anrhegion. Ni fydd mynediad y cwsmeriaid i'r siop a'r tu mewn iddi yn newid a bydd yn bodloni safonau hygyrchedd Swyddfa'r Post Cyf. a'r holl ddeddfwriaeth berthynol. Bydd drysau dwbl wrth y fynedfa, a chedwir y rhain ar agor yn ystod yr oriau agor, a byddant yn arwain at ddrws mewnol awtomatig.

Y tu allan, y tu flaen i'r adeilad, bydd yna arwyddion Swyddfa'r Post ynghyd â bwrdd â rhestr o'r oriau agor. Gosodir arwyddion i ddangos y ffordd i gwsmeriaid o'r fynedfa, drwy'r siop ac i mewn i'r lle a neilltuwyd ar gyfer y Swyddfa Bost. Cedwir y fynedfa a'r llwybrau siopa yn rhydd o unrhyw rwystrau, a bydd digon o le i gwsmeriaid y Swyddfa Bost, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn, symud o gwmpas yn y siop a chyrraedd y Swyddfa Bost yn ddirwystr.

Bydd cownter y Swyddfa Bost yn cael ei adeiladu yn unol â rhagofynion Swyddfa'r Post, gan gynnwys cownteri isel, padiau PIN a dolenni clyw. Bydd digon o le i bobl aros eu tro am wasanaeth, a bydd yna seddau i gwsmeriaid. Bydd gan y gangen newydd un man gwasanaeth traddodiadol â sgrin o'r llawr i'r nenfwd, dau fan gwasanaeth cynllun-agored a man gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gownter y siop. Cafodd nifer y mannau gwasanaeth eu seilio ar faint o fusnes sydd ar hyn o bryd a faint a ragwelir yn y dyfodol. Yn dilyn y newid, bydd y Swyddfa Bost ar agor yn hirach, gan gynnwys ar brynhawniau Sadwrn, fel bod mwy o ddewis o ran amser i gwsmeriaid.

Rwy'n fodlon y bydd gofynion y cwsmer yn cael eu diwallu o hyd ond byddwn yn dal i gadw llygad ar y defnydd o'r gangen ar ôl y trosglwyddiad a byddwn yn cydweithio â'n partner newydd i wneud yn siŵr fod safonau'r gwasanaeth yn cael eu cynnal.

Cael hyd i gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post

Bydd yr un dewis eang o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd. Bydd y staff sydd ond yn gweithio yn y Swyddfa Bost, yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwybodaeth am gynhyrchion ariannol, gan gynnwys cynilion ac yswiriannau. Yn ogystal, bydd gwybodaeth am gynhyrchion ar gael i gwsmeriaid i'w cymryd gyda nhw a bydd ein gwefan a llinellau cymorth arbenigol i gwsmeriaid yn darparu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael a sut i'w brynu.

Mae manylion pellach am y gangen newydd, gan gynnwys yr oriau agor, yn y daflen wybodaeth amgaeedig.

Hyfforddiant ynghylch gwasanaethu cwsmeriaid a'r staff presennol

Mae gan Swyddfa'r Post broses recriwtio gadarn ac rydym yn fodlon y gall ein partner manwerth newydd redeg y gwasanaeth yn Nhreforys mewn ffordd briodol a'i fod wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.

Bydd y sawl a gyflogir i weithio yn Swyddfa Bost Treforys yn derbyn hyfforddiant yn unol â safonau uchaf Swyddfa'r Post ac, yr un fath â'r canghennau rydym yn eu rhedeg ein hunain, bydd staff y gangen yn derbyn hyfforddiant drwy'r amser ynglŷn â chynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal â materion cyffredinol sy'n ymwneud â rhedeg y gangen a gwasanaeth. Bydd Rheolwyr Ardal Swyddfa'r Post yn gweithio gyda'n partner newydd a thîm y gangen i gynniig cymorth, fel y gwnânt eisoes mewn canghennau Swyddfa'r Post sy'n cael eu rhedeg gennym ni neu bartneriaid manwerth eraill.

Ynglŷn a phobl sy'n gweithio yn y gangen bresennol, mae gennym enw da am gefnogi ein pobl yn ystod unrhyw newid. Fe wnawn bopeth posibl, o fewn y dewisiadau, i gael hyd i ateb a fydd yn derbyniol i bob unigolyn.

Casgliad

Credwn y bydd masnachfreintio'r gangen hon yn caniatáu i ni gael gwell gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned hon yn yr hirdymor ac yn gymorth i ddiogelu Rhwydwaith Swyddfa'r Post yn gyffredinol. Rydym eisoes yn rhedeg y mwyafrif helaeth o'n rhwydwaith ar sail masnachfaint neu asiantaeth a bu darparu gwasanaethau trwy'r canghennau hyn yn llwyddiannus.

Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd, rwy'n ffyddiog y bydd y gangen newydd yn parhau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaeth rhagorol, ynghyd â helpu i wneud y gangen yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol a chadw Swyddfa Bost yn Nhreforys.

Mae'n dda gennyf gadarnhau y cafwyd cytundeb ynghylch y dyddiadau adnewyddu a bydd eich cangen newydd sbon yn agor am 09:00 ddydd Iau 25 Ionawr 2018. Er mwyn gallu gwneud y gwaith, bydd Swyddfa Bost Treforys yn cau dros dro o 17:30 ddydd Mercher 3 Ionawr 2018. Mae'n ddrwg gennyf am unrhyw anhwylostod a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod hwn ac mae manylion am ganghennau eraill ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk. Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: **00464299**.

Yr eiddoch yn gywir



Roger Gale
Cyfarwyddwr Gwerthiannau a Marchnata Masnachol
Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Sut i gysylltu â ni:



postofficeviews.co.uk



comments@postoffice.co.uk



Llinell Gymorth: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55



FREEPOST Your Comments

Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I'w weld, sganiwch yma.



Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn: postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posterï a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn ystyried eich cwyn ac yn rhoi ateb ichi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r manau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

I gael yr wybodaeth hon mewn print bras, sain neu braille, byddwch cystal â chysylltu â'r llinell gymorth i gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.

Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Treforys															
Oriau Agor	<table> <tr><td>Llun</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Maw</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Mer</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Iau</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Gwen</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Sad</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Sul</td><td>Ar gau</td></tr> </table>	Llun	09:00 – 18:00	Maw	09:00 – 18:00	Mer	09:00 – 18:00	Iau	09:00 – 18:00	Gwen	09:00 – 18:00	Sad	09:00 – 18:00	Sul	Ar gau
Llun	09:00 – 18:00														
Maw	09:00 – 18:00														
Mer	09:00 – 18:00														
Iau	09:00 – 18:00														
Gwen	09:00 – 18:00														
Sad	09:00 – 18:00														
Sul	Ar gau														
Oriau agor gwasanaeth y Swyddfa Bost wrth gownter y siop	<table> <tr><td>Llun-Sad</td><td>09:00 – 18:00</td></tr> <tr><td>Sul</td><td>Ar gau</td></tr> </table>	Llun-Sad	09:00 – 18:00	Sul	Ar gau										
Llun-Sad	09:00 – 18:00														
Sul	Ar gau														
Cynhyrchion a Gwasanaethau	Bydd yr un dewis eang o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.														
Mannau gwasanaeth	Ceir pedwar man gwasanaeth, sef un â sgrin, dau â chynllun agored a man gwasanaeth Swyddfa'r Post ar gownter y siop. Cafodd nifer y manau gwasanaeth eu seilio ar faint o fusnes sydd ar hyn o bryd a faint a ragwelir yn y dyfodol.														
Mynediad a chyfleusterau	Byddai'r mynediad i'r gangen yn dal yr un fath, gyda drysau dwbl traddodiadol wrth y fynedfa, a gedwid ar agor yn ystod yr oriau agor, a byddai'r rhain yn arwain at ddrws mewnol awtomatig. Bydd cownter gwasanaeth isel, desg ysgrifennu isel a dolen glyw ar gael o hyd.														
Y Siop	Deunydd cyfathrebu, cardiau cyfarch ac anrhegion														
Dyddiadau cau dros dro ar gyfer adnewyddu	Bydd y gangen bresennol yn cau ar gyfer gwaith adnewyddu o 17.30 ddydd Mercher 3 Ionawr 2018 a bydd yn ailagor am 09:00 ddydd Iau 25 Ionawr 2018.														

Mannau eraill lle mae gwasanaethau Swyddfa'r Post® ar gael:

Swyddfa Bost Cwmrhydyceirw

178 Chemical Road

Treforys

Abertawe

SA6 8JQ



Oriau agor

Llun	09:00 – 17:30
Maw	09:00 – 17:30
Mer	09:00 – 17:30
Iau	09:00 – 17:30
Gwen	09:00 – 17:30
Sad	09:00 – 17:30
Sul	Ar gau



Gwasanaethau

Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, ac eithrio'r peiriant arian a Gwirio ac Anfon Pasbort.



Mynediad

Mae mynediad i'r adeilad drwy ddrws awtomatig ac mae ychydig o lethr wrth y fynedfa.



Trafnidiaeth/Parcio

Mae modd parcio yng nghefn y gangen. Mae gwasanaeth bws i'r gangen hon o Swyddfa Bost Treforys. Mae modd cael gwybodaeth am lwybrau ac amserlenni yn www.firstgroup.com/south-west-wales



Llwybr

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 0.7 milltir i ffwrdd, ar hyd tir amrywiol ei natur.

Swyddfa Bost® Rhodfa Rheidol

Rhodfa Rheidol

Y Glais

Treforys

Abertawe

SA6 7JS



Oriau agor

Llun	09:00 – 17:30
Maw	09:00 – 17:30
Mer	09:00 – 17:30
Iau	09:00 – 17:30
Gwen	09:00 – 17:30
Sad	09:00 – 17:30
Sul	Ar gau



Gwasanaethau

Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, ac eithrio Gwirio ac Anfon Pasbort.



Mynediad

Mae gan y gangen hon ddrws llydan a strïbed trothwy wrth y fynedfa.



Trafnidiaeth/Parcio

Mae modd parcio oddi ar yr heol yn union y tu allan i'r gangen. Mae gwasanaeth bws i'r gangen hon o Swyddfa Bost Treforys. Mae modd cael gwybodaeth am lwybrau ac amserlenni yn www.firstgroup.com/south-west-wales



Llwybr

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 1.2 milltir i ffwrdd, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**Swyddfa Bost Dinas
Abertawe**

WHSmith
37 Canolfan Siopa'r
Cwadrant
Abertawe
SA1 3QW

**Oriau agor**

Llun	09:00 – 17:30
Maw	09:00 – 17:30
Mer	09:00 – 17:30
Iau	09:00 – 17:30
Gwen	09:00 – 17:30
Sad	09:00 – 17:30
Sul	10:30 – 14:30

**Gwasanaethau**

Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, ac eithrio'r peiriant arian.

**Mynediad**

Bydd y mynediad yn wastad a bydd drws llydan wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/Parcio**

Mae sawl maes parcio cyhoeddus yn y cyffiniau a sawl gwasanaeth bws i'r gangen hon o Swyddfa Bost Treforys. Mae modd cael gwybodaeth am lwybrau ac amserlenni yn www.firstgroup.com/south-west-wales

**Llwybr**

Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 4.1 milltir i ffwrdd, ar hyd tir amrywiol ei natur.